Polisi Cynaliadwyedd

rhieni dros addysg gymraeg

parents for Welsh medium education

Gorffennaf 2011

Polisi Cynaliadwyedd

Bydd Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) yn cefnogi a chyfrannu tuag at amcanion cynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Teimlwn mai'r amcanion isod yw'r rhai y gallwn gyfrannu fwyaf tuag atynt:

- i Gymru fod yn gymdeithas sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, yn garbon isel a gwastraff isel;
- i'n hamgylchedd naturiol gael ei diogelu a'i gwella, ac i dir gael ei ddefnyddio'n gynaliadwy[1].

I gyflawni hyn byddwn yn:

1. Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol yn y maes
2. Integreiddio cynaliadwyedd, lle bo'n addas, i'n polisiau a'n gweithgareddau.
3. Sicrhau fod holl staff a gwirfoddolwyr y mudiad yn ymwybodol o'r Polisi Cynaliadwyedd ac wedi ymrwymo i'w weithredu
4. Adolygu'r polisi yn rheolaidd ac amcanu'n barhaus i wella ein perfformiad er mwyn cyrraedd targedau'r Llywodraeth
5. Ystyried effaith ein gwaith ar ein cwsmeriaid a'r amgylchedd
6. Lleihau ein dibyniaeth ar argraffu dogfennau trwy wneud defnydd effeithiol o'n gwefan er mwyn dosbarthu dogfennau ac adnoddau
7. Lleihau gwastraff trwy ostwng ein defnydd o adnoddau ac ail-gylchu'n effeithiol
8. Lleihau teithio busnes, lle bo modd, drwy hybu defnydd o fideo a thele-gynhadledda. Cefnogir staff hefyd i weithio o adref yn achlysurol er mwyn lleihau'r angen i deithio ac anogir defnydd o gludiant cyhoeddus ble bynnag bo hynny'n ymarferol

Pwyllgor Cenedlaethol RhAG

Lluniwyd: 18 Gorffennaf 2011

Adolygwyd:

L Davies 8/4/13
(CADEIRYDD)

[1] http://wales.gov.uk/about/civilservice/departments/sustainablefutures/desh/?lang=cy